Estyn

Mehefin 2021



# Gwaith ymgysylltu

## Diweddariad ar y sector uwchradd

Tymor yr haf 2021

Mae’r adroddiad hwn yn crynhoi’r canfyddiadau o alwadau ffôn ac ymweliadau ymgysylltu a wnaed ag ysgolion uwchradd rhwng diwedd mis Mawrth a diwedd mis Mai 2021.  Mae’r adroddiad wedi’i seilio ar y wybodaeth a drafodwyd yn ystod cyfarfodydd wyneb yn wyneb ac o bell â phenaethiaid, uwch arweinwyr, athrawon a disgyblion.  Y prif ffocws ar gyfer pob trafodaeth oedd lles, addysgu a dysgu, y cwricwlwm, dysgu proffesiynol a sawl mater yn benodol i’r sector, fel cymwysterau a’r trefniadau ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau.  Mae cyfrannau’n ymwneud â’r sampl o ysgolion y cysylltom â nhw yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

**Mae’r adroddiad hwn ar gael yn Saesneg hefyd.**

# Cynnwys


## Prif ganfyddiadau 1

Lles 2
Grwpiau o ddysgwyr 2
Cynnydd disgyblion 2
Addysgu 2
Cymwysterau ac arholiadau 3
Cwricwlwm 3
Dysgu proffesiynol 3
Arweinyddiaeth 3

## Canfyddiadau manwl 6

Lles, yn cynnwys disgyblion yn dychwelyd a phresenoldeb 6
Grwpiau o ddysgwyr 9
Cynnydd disgyblion 11
Addysgu 13
Cymwysterau a threfniadau ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau 13
Cwricwlwm 17
Dysgu proffesiynol 18
Arweinyddiaeth 19








# Prif ganfyddiadau

Lles

Grwpiau o ddysgwyr

Cynnydd disgyblion

Addysgu

Cymwysterau ac arholiadau

Cwricwlwm

Dysgu proffesiynol

Arweinyddiaeth

**Lles**

- Mae disgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol, ar y cyfan
- Mae presenoldeb yn gadarnhaol, ar y cyfan, er nad yw ychydig o ddisgyblion wedi dychwelyd i'r ysgol
- Bu cynnydd mewn atgyfeiriadau i wasanaethau plant, y Gwasanaeth Iechyd Meddwl Plant a'r Glasoed (CAMHS) a'r gwasanaeth cwnsela yn yr ysgol
- Mae disgyblion ym Mlynyddoedd 11 ac 13 yn hynod bryderus ac yn cael eu heffeithio gan nifer uchel yr asesiadau y mae'n rhaid iddynt eu cwblhau
- Mae staff yn teimlo eu bod yn cael cefnogaeth dda gan arweinwyr, ond maent wedi blino
- Mae athrawon yn sôn am y baich gwaith trwm sy'n gysylltiedig â Graddau a Bennir gan Ganolfannau

**Grwpiau o ddysgwyr**

- Mae grwpiau penodol o ddysgwyr, fel y rhai ag anghenion dysgu ychwanegol, disgyblion o gefndiroedd difreintiedig a'r rhai y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt, wedi cael eu heffeithio'n fawr gan y pandemig
- Ceir pryder cyffredinol am y profiadau i ddisgyblion iau gan fod cymaint o sylw wedi cael ei gyfeirio tuag at ddisgyblion mewn grwpiau blynyddoedd arholiadau

**Cynnydd disgyblion**

- Gan nad yw dysgu o bell yn addas ar gyfer rhai agweddau ar ddarpariaeth, mae ysgolion wedi nodi 'bylchau' yng nghynnydd a medrau disgyblion o ran elfennau fel llafaredd ac ysgrifennu estynedig
- Mae disgyblion nad ymgysylltodd yn dda â dysgu o bell wedi llithro'n ôl ymhellach na'r rhai a ymgysylltodd yn dda ag ef
- Mae ysgolion yn pryderu bod disgyblion nad oeddent yn ymgysylltu yn fwy tebygol o ddod o gefndiroedd difreintiedig, ac y bydd y rhaniad rhwng y rhai difreintiedig a'r rhai mwy breintiedig yn ehangu
- Mae ysgolion cyfrwng Cymraeg yn hynod bryderus am fedrau llafaredd disgyblion yn Gymraeg

**Addysgu**

- Mae'n well gan ddisgyblion gael eu haddysgu wyneb yn wyneb yn yr ysgol, er eu bod yn gwerthfawrogi'r gwelliant yn y ddarpariaeth ar gyfer dysgu o bell yn ystod yr ail gyfnod clo

- Mae ysgolion yn bwriadu cadw rhai agweddau ar ddysgu o bell yn eu darpariaeth yn y dyfodol

- Mae'r cyfyngiadau presennol, fel y rheidrwydd i ddisgyblion wisgo mygydau, a'r ffaith na chaiff athrawon fynd o gwmpas yr ystafell ddosbarth, yn parhau i greu heriau

**Cymwysterau ac arholiadau**

- Dywed ysgolion fod gweithredu'r trefniadau ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau ac apeliadau wedi creu baich gwaith, straen a gorbryder ychwanegol i ddisgyblion a staff

- Mae athrawon yn pryderu bod deunyddiau asesu a chynlluniau marcio ar gael yn hawdd ar y rhyngrwyd ac yn dweud bod hyn yn achosi anawsterau sylweddol gan fod disgyblion yn gallu dysgu'r cynnwys

**Cwricwlwm**

- Mae amrywioldeb rhwng ysgolion yn parhau yn yr ymagweddau at ddarpariaeth y cwricwlwm; er enghraifft, gall disgyblion iau fynd i ystafelloedd dosbarth a gweithdai arbenigol mewn rhai ysgolion, ond rhaid i ddisgyblion aros yn yr un ystafell ar gyfer yr holl bynciau mewn ysgolion eraill

- Mae ysgolion wedi gwneud trefniadau amgen ar gyfer disgyblion sy'n symud o un cyfnod allweddol i'r nesaf, er bod hyn wedi bod yn hynod heriol ar gyfer disgyblion sy'n dewis eu hopsiynau TGAU

- Yn gyffredinol, mae disgyblion iau wedi cael cwricwlwm mwy cyfyngedig na disgyblion hŷn trwy gydol y pandemig. Mae'r sefyllfa hon yn parhau wrth i wersi cyfnod allweddol 3 gael eu cyflenwi i ryddhau athrawon i weithio ar Raddau a Bennir gan Ganolfannau.

- Mae cyfyngiadau ar brofiadau allgyrsiol a phrofiadau dysgu ehangach yn parhau i gael effaith andwyol ar les disgyblion a'u mwynhad o'r ysgol

- Mae cynlluniau ar gyfer rhoi'r Cwricwlwm i Gymru ar waith yn amrywio'n fawr

**Dysgu proffesiynol**

- Mae ysgolion wedi blaenoriaethu dysgu proffesiynol i gefnogi proses y Graddau a Bennir gan Ganolfannau

- Mae staff yn parhau i fanteisio ar ystod ehangach o lawer o gyfleoedd dysgu proffesiynol nag yr oeddent cyn y pandemig, yn enwedig o ran medrau digidol

**Arweinyddiaeth**

- Mae arweinwyr yn parhau i fod dan bwysau sylweddol yn sgil gorfod rheoli profion llif unffordd, achosion o COVID-19, gofynion iechyd a diogelwch a threfniadau ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau ac apeliadau

- Mae arweinwyr yn myfyrio'n rheolaidd ar eu harferion ac yn nodi newidiadau i'w harferion a ysgogwyd gan y pandemig y maent yn bwriadu eu cadw

- Mae amrywioldeb yn parhau yng ngraddau ac ansawdd gwerthuso'r addysgu a'r dysgu a dysgu proffesiynol

- Mae arweinwyr yn pryderu bod ffyrdd o weithio y maent wedi gweithio'n galed i'w sefydlu wedi pylu, er gwaethaf datblygiadau cadarnhaol mewn rhai meysydd fel medrau digidol

- Mae ysgolion wedi parhau i baratoi ar gyfer gweithredu Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg



## Canfyddiadau manwl

**Lles, yn cynnwys disgyblion yn dychwelyd a phresenoldeb**

**Lles disgyblion**

At ei gilydd, mae disgyblion yn hapus i fod yn ôl yn yr ysgol. Dywedodd disgyblion a gafodd eu cyfweld yn ystod ymweliadau ysgol, er iddynt gael cefnogaeth dda yn ystod y cyfnod clo diwethaf, eu bod yn croesawu dychwelyd i'r ysgol ac yn teimlo y cânt eu cynnwys yn fwy yn eu dysgu. Maent yn mwynhau gwersi, gweld eu hathrawon a bod gyda'u ffrindiau. Mae disgyblion yn gwerthfawrogi'r modd y mae ysgolion yn gweithio'n galed i sicrhau amgylchedd dysgu diogel a glân.

Dywed staff ysgol eu bod wedi ennill dealltwriaeth well o sut mae disgyblion yn byw a'r heriau mae rhai ohonynt yn eu hwynebu, trwy wersi byw, sgyrsiau uniongyrchol â disgyblion a galwadau ffôn wythnosol i rieni i wirio lles. Dywedant fod cyfathrebu o'r fath wedi eu galluogi i gael dealltwriaeth well o lefel tlodi, anfantais ac anawsterau cymdeithasol y mae rhai disgyblion yn eu hwynebu. Hefyd, mae hyn wedi galluogi staff ysgol i ddeall yn gliriach y gwahaniaeth rhwng ymddygiad gwael bwriadol ac arddangos problemau emosiynol neu ymlyniad.

Mae rhai ysgolion wedi ymateb yn gynhyrchiol i helpu disgyblion a theuluoedd sydd angen cymorth i ailsefydlu arferion o amgylch y diwrnod ysgol. Er enghraifft, maent wedi defnyddio eu swyddog cyswllt â theuluoedd i weithio gyda theuluoedd i gytuno ar amseroedd gwely ac amseroedd deffro ar gyfer disgyblion.

Mae ysgolion wedi darganfod bod angen mwy o gymorth emosiynol ar yr holl ddisgyblion na chyn y pandemig. Mae disgyblion mwy abl yn pryderu am golli'r ysgol a bod ar ei hôl hi â'u cynnydd, yn enwedig merched. Mae disgyblion hŷn yn teimlo eu bod wedi eu gorlethu gan nifer fawr yr asesiadau, ac yn dweud bod hyn yn cael effaith negyddol ar eu hiechyd meddwl a'u lles. Hefyd, maent yn bryderus am system asesu'r Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Mae rhai ysgolion yn nodi y bu disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 yn bryderus am ddychwelyd i'r ysgol ond eu bod wedi ymgartrefu mwy erbyn hyn. Roedd hyn yn arbennig o wir am ddisgyblion Blwyddyn 7 nad ydynt wedi cael llawer o gyfleoedd i ffurfio grwpiau ffrindiau. Darparodd rhai ysgolion sesiynau 'pontio' ar gyfer disgyblion Blwyddyn 10 a Blwyddyn 11 a oedd yn hynod anniddig ynglŷn â dychwelyd i'r ysgol o ganlyniad i beidio ag ymgysylltu'n dda â dysgu o bell. Y tymor hwn, mae ysgolion wedi darparu sesiynau bugeiliol buddiol a chyfleoedd ychwanegol i ddisgyblion drafod materion lles gyda thiwtoriaid a staff cymorth. Mae rhai ysgolion yn darparu cyfleoedd i ddisgyblion ofyn am gymorth trwy fotwm 'rhoi gwybod am fater lles' ar-lein ar eu gwefan. Mae ysgolion eraill wedi creu microwefan neu ardal benodol o fewn eu gwefan gyda gwybodaeth a syniadau i gefnogi lles disgyblion.

**Cameo – Ysgol Syr Hugh Owen**

Mae systemau mewnol i fonitro lles a llesiant disgyblion ers iddynt ddychwelyd i'r ysgol wedi nodi mynychter mewn gorbryder, hunananafu a hwyliau isel cynyddol. Mae'r ysgol wedi creu Google Classroom arbennig ar gyfer iechyd meddwl, er mwyn i ddisgyblion allu cael gwybodaeth a gweithgareddau i'w cynorthwyo. Yn ychwanegol, mae'r ysgol wedi addasu gwersi ABCh i ymateb i anghenion disgyblion, fel gwersi ar feithrin gwydnwch meddyliol, gwella hylendid personol a hyrwyddo model 'Pum Ffordd at Les' y GIG.

Mae llawer o ysgolion yn canolbwyntio ar hyrwyddo iechyd a lles emosiynol cadarnhaol trwy gyflawni ymyriadau sy'n cael eu trefnu gan amlaf ar gyfer grwpiau bach i grwpiau blwyddyn ar draws yr ysgol. Er enghraifft, mewn un ysgol, caiff sesiynau ELSA (Cynorthwyydd Cymorth Llythrennedd Emosiynol) eu cyflwyno yn awr gan gynorthwywyr addysgu i'r holl ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3, ac mewn ysgolion eraill, mae staff cymorth sydd wedi cael hyfforddiant ysgol sy'n ystyriol o drawma yn cefnogi sesiynau tiwtor.

Mae disgyblion a gafodd eu cyfweld yn ystod ymweliadau ymgysylltu â'r ysgol yn falch fod eu hysgol wedi gofyn eu barn yn rheolaidd trwy gydol cyfnod y pandemig ac wedi gwneud newidiadau buddiol i ddarpariaeth o ganlyniad. Dywed disgyblion fod eu medrau trefnu a rheoli amser wedi gwella o ganlyniad i ddysgu o bell. Yn ychwanegol, mewn rhai ysgolion, maent wedi cael eu hannog i ddod o hyd i bethau newydd i'w gwneud a sicrhau cydbwysedd yn eu hamser i gynnwys pethau heblaw gwaith ysgol. Maent yn teimlo bod hyn wedi eu helpu i warchod eu lles cyhyd ag y bo modd. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, fod disgyblion a ddewiswyd ar gyfer cyfweliadau gan yr ysgolion yn tueddu i fod o blith y grwpiau mwy abl, cymwys a hyderus.

Dywed ysgolion y bu cynnydd mewn atgyfeiriadau i asiantaethau cymorth allanol, fel gwasanaeth cwnsela'r ALl mewn ysgolion a CAMHS. Mae llawer o'r atgyfeiriadau hyn ynglŷn â gorbryder, hunan-barch isel a hwyliau isel. Yn aml, mae'r problemau hyn wedi datblygu o ganlyniad i bobl ifanc ddim yn gweld ffrindiau nac yn datblygu medrau cymdeithasol trwy grwpiau ffrindiau. Fodd bynnag, mae ysgolion hefyd yn nodi cynnydd sylweddol mewn achosion o hunan-niweidio bwriadol ymhlith eu disgyblion canol a'u disgyblion hŷn. Dywed pob ysgol y bu cynnydd sylweddol mewn atgyfeiriadau amddiffyn plant i wasanaethau plant.

At ei gilydd, dywed ysgolion fod ymddygiad disgyblion yn dda. Mae newidiadau yn nhrefn y diwrnod ysgol, fel cael amseroedd egwyl ac amseroedd cinio amrywiol, yn ogystal â systemau teithio unffordd a mannau dynodedig i fynd i mewn ac allan, wedi arwain at amgylchedd ysgol tawelach a mwy pwyllog. Mae ysgolion yn bwriadu cadw'r mesurau hyn yn y dyfodol pan fydd gofynion cadw pellter cymdeithasol yn dod i ben. Mae llawer o ysgolion a gadwodd grwpiau blwyddyn gyda'i gilydd mewn parthau yn wreiddiol, ac yr oedd eu disgyblion yn aros yn yr un ystafell ddosbarth trwy'r dydd bellach wedi dychwelyd i'r drefn arferol ac mae athrawon yn cael eu hystafelloedd dosbarth yn ôl. Mae hyn wedi helpu lleihau'r straen ar staff addysgu a staff cymorth yr oedd yn rhaid iddynt gario eu hoffer, ac addysgu mewn gwahanol ystafelloedd dosbarth.

## Presenoldeb

Dywed ysgolion fod cyfraddau presenoldeb ar ôl y Pasg yn uwch na'r rhai yn ystod tymor yr hydref. Roedd cyfraddau presenoldeb yn gryf i ddechrau, ond maent wedi disgyn ychydig wrth i'r tymor fynd rhagddo, yn bennaf o ganlyniad i fân salwch. Rhoddir blaenoriaeth i hyrwyddo presenoldeb da mewn llawer o ysgolion. O'r herwydd, rhoddwyd amser digyswllt ychwanegol i benaethiaid blwyddyn ac arweinwyr bugeiliol ddelio â phroblemau lles a chefnogi presenoldeb.

Er bod cyfraddau presenoldeb yn dda, ar y cyfan, y prif reswm am gyfraddau presenoldeb is o gymharu â'r cyfnod cyn y pandemig yw absenoldeb parhaus ychydig iawn o ddisgyblion. Nid yw'r disgyblion hyn wedi dychwelyd i'r ysgol o ganlyniad i bryderon am eu hiechyd eu hunain neu iechyd aelod o'u teulu, neu o ganlyniad i anfodlonrwydd i ailymgysylltu ag addysg. Er bod ysgolion yn aml yn gweithio mewn partneriaeth â swyddogion yr awdurdod lleol i berswadio'r disgyblion hyn i ddychwelyd i'r ysgol, maent yn parhau i fod yn ddi-rym i ddefnyddio cosbau ar hyn o bryd o ganlyniad i gyfyngiadau cenedlaethol presennol.

**Cyfraddau presenoldeb Cymru gyfan**

| Blwyddyn | 15/03/21 i 19/03/21 (a) | 22/03/21 i 26/03/21 (a) | 12/04/21 i 16/04/21 (b) (p) | 19/04/21 i 23/04/21 (r) | 26/04/21 i 30/04/21 (p) (r) | 03/05/21 i 07/05/21 (p) |
|---|---|---|---|---|---|---|
| 7 | 15.5 | 28.9 | 93.6 | 92.8 | 90.0 | 90.6 |
| 8 | 13.0 | 28.8 | 92.2 | 90.5 | 89.2 | 89.6 |
| 9 | 12.3 | 27.6 | 91.4 | 90.7 | 89.4 | 88.8 |
| 10 | 32.3 | 60.5 | 89.1 | 88.9 | 87.6 | 87.6 |
| 11 | 82.4 | 78.4 | 87.9 | 87.6 | 86.8 | 84.7 |
| 12 | 56.5 | 74.4 | 82.3 | 82.6 | 81.2 | 78.8 |
| 13 | 74.5 | 71.4 | 75.0 | 76.0 | 73.1 | 67.4 |
| Cyf 7-11 | | | 90.8 | 90.1 | 88.6 | 88.3 |

Mae llawer o nifer fach y disgyblion a ddewisodd gael eu haddysg gartref yn ystod y cyfnod clo cyntaf ac yn y flwyddyn academaidd newydd bellach wedi ailgofrestru yn eu hysgolion priodol. Mae swyddogion lles awdurdodau lleol wedi darparu cymorth effeithiol i deuluoedd a oedd yn amharod i anfon eu plant i'r ysgol i ddechrau. Mae hyn wedi cael effaith gadarnhaol ar gyfraddau presenoldeb.

## Lles staff

Yn gyffredinol, mae staff yn teimlo bod arweinwyr wedi eu cefnogi'n dda yn ystod y pandemig, ac yn enwedig ers i ddisgyblion ddychwelyd wedi'r ail gyfnod clo. Yn

benodol, dywedant fod arweinwyr wedi eu hysbysu'n dda am benderfyniadau, gan ei gwneud yn glir beth yw'r rhesymau dros unrhyw newidiadau a wnaed.  Dywed arweinwyr canol eu bod wedi cael cymorth da gan uwch arweinwyr, a bod hyn, yn ei dro, wedi eu galluogi i gefnogi staff yn eu hadran yn well.

At ei gilydd, dywed athrawon fod uwch arweinwyr yn ystyriol o'r baich gwaith, yn enwedig y gwaith ychwanegol sylweddol o ganlyniad i broses y Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer disgyblion Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13.  Yn y rhan fwyaf o achosion, rhoddwyd cyfarwyddyd a chymorth clir i athrawon ar y trefniadau ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau ac amser ychwanegol i reoli eu gweinyddu.

Mae staff yn gwerthfawrogi protocolau a pholisïau iechyd a diogelwch gofalus eu hysgol ac yn dweud bod y rhain wedi rhoi sicrwydd iddynt ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb.  Mae penaethiaid yn pryderu nad yw staff newydd, yn enwedig athrawon newydd gymhwyso, wedi cael digon o gyfleoedd i gydweithio a meithrin perthnasoedd â chydweithwyr a disgyblion.

**Grwpiau o ddysgwyr**

Mae effaith y pandemig ar grwpiau penodol o ddysgwyr wedi bod yn sylweddol.  Mae ysgolion yn dweud bod amrywioldeb yn ymgysylltiad disgyblion â dysgu o bell.  Yn benodol, roedd disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol neu ddisgyblion o amgylchiadau difreintiedig, fel y rhai sy'n gymwys am brydau ysgol am ddim, yn tueddu i ymgysylltu'n llai na disgyblion eraill.  Roedd disgyblion y mae Saesneg yn iaith ychwanegol iddynt yn ei chael yn anodd iawn ymgysylltu â dysgu o bell, yn enwedig os nad yw eu rhieni'n siarad Saesneg.  Mae'r anghyfartaledd rhwng y disgyblion hynny a oedd yn ymgysylltu â dysgu gartref a'r rhai nad oeddent yn gwneud hynny yn dod yn gynyddol amlwg.  Yn gyffredinol, dywed ysgolion fod disgyblion mwy abl yn ymgysylltu'n dda â gwaith gartref a bod eu presenoldeb yn yr ysgol yn dda erbyn hyn.  I rai disgyblion, mae cyfnod cau ysgolion wedi cryfhau eu cymhelliant a'u hannibyniaeth gan eu gwneud yn fwy penderfynol i gyflawni eu nodau er gwaethaf y tarfu a achoswyd gan y pandemig.

Yn gyffredinol, mae pryder am fedrau canolbwyntio'r disgyblion iau mewn ysgolion uwchradd a'u parodrwydd i ddysgu.  Mae athrawon wedi ei chael yn anodd cynllunio profiadau dysgu diddorol i ailymgysylltu â disgyblion cyfnod allweddol 3 o ganlyniad i'r pwyslais sylweddol ar y gofynion i ddarparu Graddau a Bennir gan Ganolfannau ar gyfer disgyblion cyfnod allweddol 4.  O ganlyniad, mae disgyblion yng nghyfnod allweddol 3 wedi cael trefn fwy cyfyngedig o dasgau ysgogol nag y byddai eu hathrawon fod wedi ei heisiau.  Mae hyn wedi cael effaith ar eu canolbwyntio a'u hymgysylltiad â dysgu.



**Cynnydd disgyblion**

Ers dychwelyd i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Pasg, mae llawer o ysgolion wedi dechrau canolbwyntio ar nodi bylchau yn nysgu a medrau disgyblion. Nid yw darpariaeth dysgu o bell yn addas i agweddau penodol ar y ddarpariaeth. O ganlyniad, mae ysgolion yn nodi rhai 'bylchau' sy'n gyffredinol i lawer o ddisgyblion. Er enghraifft, mae'r rhan fwyaf ohonynt yn nodi dirywiad mewn medrau llafaredd gan fod y cyfleoedd i ddisgyblion siarad, trafod a chlywed disgyblion eraill yn siarad yn brin. Mae llawer o ddisgyblion yn amharod i siarad o flaen sgrin, ac felly, nid ydynt wedi ymarfer eu medrau llafaredd yn rheolaidd. Mae'r gofyniad i ddisgyblion gadw pellter cymdeithasol a gwisgo mygydau mewn ystafelloedd dosbarth wedi ychwanegu at yr her i ennyn eu diddordeb mewn tasgau llafaredd yn sgil dychwelyd i'r ysgol. Hefyd, mae llawer o ysgolion wedi sôn am ddirywiad mewn medrau ysgrifennu estynedig gan fod disgyblion yn tueddu i ysgrifennu darnau byrrach nag y byddent wedi'i wneud pe baent wedi bod yn yr ysgol. Er bod athrawon wedi ymdrechu'n sylweddol i annog disgyblion i ysgrifennu'n estynedig, roedd llawer o ddisgyblion yn ei chael yn anodd cyflawni hyn gartref. Mae ysgolion wedi gweld y bu dirywiad cyffredinol yng nghyfoeth ac ehangder geirfa disgyblion gan nad ydynt wedi clywed eu hathrawon yn modelu iaith mor aml ag y byddent fel arfer, ac mae llawer o ddisgyblion yn darllen llai. I'r gwrthwyneb, mae medrau digidol disgyblion wedi datblygu'n dda ac yn gyflym.

Mae llawer o ysgolion wedi nodi bod diffygion ym medrau llythrennedd disgyblion Blwyddyn 7, yn enwedig eu medrau darllen. Dywed ysgolion fod y cymorth ar gyfer datblygiad disgyblion mewn llythrennedd trwy'r cyfnod pontio o Flwyddyn 6 i Flwyddyn 7 wedi cael ei effeithio gan y tarfu ar addysg a achoswyd gan y pandemig.

Hefyd, dywed arweinwyr fod ganddynt bryderon am barodrwydd disgyblion i ddysgu, eu gwydnwch a'u gallu i ailymgysylltu ag arferion ystafell ddosbarth. Fodd bynnag, heblaw am y materion cyffredinol a nodwyd gan y rhan fwyaf o ysgolion, mae 'bylchau' yn nysgu a medrau disgyblion yn amrywio'n eang rhwng disgyblion ac ysgolion. Maent yn adlewyrchu cyd-destun penodol pob disgybl a phob ysgol. Yn unol â'r disgwyl, dywed ysgolion nad yw'r disgyblion hynny a gafodd gymorth ar gyfer dysgu gan eu teulu ac a gynhaliodd ffocws ar eu gwaith wedi llithro'n ôl i raddau'r rhai nad ymgysylltodd yn effeithiol â dysgu o bell. Hefyd, maent yn pryderu ei bod yn fwy tebygol mai disgyblion nad ymgysylltodd yw'r disgyblion o gefndiroedd difreintiedig.

Mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dywed penaethiaid fod medrau disgyblion o ran siarad Cymraeg wedi llithro'n ôl. Mae hyn yn arbennig o wir am y disgyblion hynny o gartrefi di-Gymraeg gan mai cyfleoedd cyfyngedig a gawsant i siarad neu glywed yr iaith. Wedi iddynt ddychwelyd i'r ysgol, mae wedi cymryd amser i ddisgyblion fynd yn ôl i'r arfer o ddefnyddio'r Gymraeg mewn gwersi ac yn ystod eu rhyngweithio cymdeithasol. Yn ychwanegol, o ganlyniad i ganllawiau diogelwch penodol, mae wedi bod yn anos trefnu gwaith pâr a gwaith grŵp, ac mae hyn wedi effeithio ar fedrau cyfathrebu a medrau cymdeithasol disgyblion.



## Addysgu

At ei gilydd, mae disgyblion yn falch â'r ddarpariaeth ar gyfer addysgu a dysgu er mis Rhagfyr. Dywedant fod athrawon wedi addasu eu dulliau'n dda yn ystod yr ail gyfnod clo a'u bod yn gefnogol o'u dysgu a'u lles. Fodd bynnag, dywed bron pob un o'r disgyblion fod addysgu wyneb yn wyneb yn fwy effeithiol iddyn nhw. Am y rhesymau hyn, mae bron pob arweinydd ysgol eisiau dychwelyd at gymaint o normalrwydd ag y bo modd, o fewn cyfyngiadau gweithredu'n ddiogel.

Dywed y rhan fwyaf o ysgolion fod ansawdd dysgu o bell wedi gwella yn ystod y cyfnod clo diwethaf. Roeddent yn teimlo bod athrawon wedi dysgu goresgyn heriau dysgu o bell yn gyflym, ac wedi addasu eu haddysgu i ddarparu profiad dysgu gwell nag yn y cyfnod clo cyntaf. Croesawodd disgyblion ddarpariaeth gwersi wedi eu recordio ymlaen llaw a gwersi byw, ac roeddent yn teimlo bod y cydbwysedd rhwng dysgu cydamserol ac anghydamserol yn addas. Gwelodd disgyblion agweddau penodol ar eu dysgu yn heriol yn ystod y cyfnod clo. Roeddent yn gweld eisiau gweithio gyda'u cyfoedion a'u hathrawon mewn gweithgareddau ystafell ddosbarth, fel cwblhau arbrofion gwyddoniaeth, ond yn croesawu'r ffyrdd yr oedd athrawon pynciau ymarferol yn addasu eu gwersi i gefnogi eu dysgu.

Yn gyffredinol, dywed athrawon eu bod wedi'i gweld yn heriol mynd i'r afael ag ystod eang anghenion dysgu disgyblion yn ystod y pandemig. Roedd athrawon yn ei chael yn anodd cynllunio'n briodol ar gyfer anghenion pob un o'r disgyblion pan oeddent yn ymgysylltu â dysgu o bell ac nid oeddent yn gallu cynorthwyo disgyblion nad ymgysylltodd â dysgu. Ers dychwelyd i'r ysgol ym mis Ebrill, mae athrawon eisiau osgoi mynd dros waith a gwblhawyd yn ystod y cyfnod clo, am fod rhai disgyblion wedi ymgysylltu'n dda â hyn. Fodd bynnag, maent yn cydnabod bod angen iddynt ddarparu cymorth o hyd ar gyfer y disgyblion hynny nad ymgysylltodd yn effeithiol â dysgu o bell a dysgu cyfunol.

Dywed ysgolion eu bod yn bwriadu cadw rhai agweddau ar eu darpariaeth dysgu o bell a dysgu cyfunol yn y dyfodol. At ei gilydd, mae hyder a dawn greadigol athrawon a disgyblion mewn defnyddio technoleg ddigidol i gefnogi dysgu ac addysgu wedi datblygu'n sylweddol. Er enghraifft, mae llawer o ysgolion yn bwriadu datblygu eu defnydd o adborth ar lafar wedi'i recordio gan eu bod yn cydnabod ei fod wedi lleihau baich gwaith ac wedi cael effaith gadarnhaol ar ymgysylltiad ddisgyblion.

Mae'r rhan fwyaf o athrawon ac arweinwyr canol wedi gweld y cyfyngiadau presennol yn anodd wrth addysgu wyneb yn wyneb. Yn benodol, maent yn pryderu am eu gallu cyfyngedig i fynd o gwmpas y dosbarth i ymyrryd a chynorthwyo disgyblion. Mae uwch arweinwyr yn dod o hyd i ffyrdd creadigol o oresgyn y cyfyngiadau presennol. Er enghraifft, sefydlodd Ysgol Y Moelwyn ofod dysgu yn yr awyr agored lle gall athrawon gynnal gwersi drama neu dasgau llafar i helpu disgyblion i wella eu medrau siarad.

## Cymwysterau a threfniadau ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau

Dywed arweinwyr ysgol ac athrawon fod gosod a marcio asesiadau a chasglu tystiolaeth ar gyfer y broses Graddau a Bennir gan Ganolfannau wedi creu baich gwaith ychwanegol sylweddol. Dywedant hefyd fod hyn yn creu straen a gorbryder sylweddol i staff a disgyblion.

Yn gyffredinol, mae athrawon wedi defnyddio bron holl amser addysgu Blwyddyn 11 a Blwyddyn 13 y tymor hwn i baratoi disgyblion ar gyfer yr asesiadau neu i'w cwblhau.  Dywed ysgolion fod nifer uchel yr asesiadau wedi rhoi straen sylweddol ar ddisgyblion hefyd, a bod hyn yn cael effaith negyddol ar eu lles.  Mae llawer o ddisgyblion wedi eu gorlethu gan faint y gwaith ac nid ydynt yn mwynhau eu hwythnosau olaf yn yr ysgol.  Daw ychydig o ddisgyblion mwy abl i'r casgliad, er bod cwblhau nifer fawr o asesiadau wedi bod yn heriol, bod paratoi gwaith a gweithio dan bwysau wedi bod yn brofiad buddiol ar gyfer sefyll arholiadau yn y dyfodol.

Mae ysgolion wedi creu polisi a gweithdrefnau ar gyfer staff ynglŷn â dyrannu Graddau a Bennir gan Ganolfannau, a rhannwyd y rhain gyda rhieni a disgyblion.  Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae ffocws yr holl ddysgu proffesiynol er mis Chwefror wedi bod ar sicrhau bod staff yn deall y gweithdrefnau ar gyfer dyrannu graddau.

**Cameo – Ysgol y Moelwyn**

Mae'r ysgol wedi darparu cyfarfodydd rhithwir ar gyfer rhieni sy'n cynnwys cyfres o gyflwyniadau yn esbonio'r trefniadau ar gyfer dyfarnu cymwysterau eleni.  Darparodd y cyfarfodydd gyfleoedd buddiol i rieni ofyn cwestiynau.  Mae'r ysgol yn obeithiol y bydd gan rieni ddealltwriaeth well o'r broses o ganlyniad, ac y bydd hyn, yn ei dro, yn golygu bod rhieni dim ond yn apelio pan fydd rheswm dilys dros wneud hynny.

Dywed penaethiaid eu bod yn deall anawsterau creu proses ar gyfer dyfarnu cymwysterau'r haf hwn a pham y diwygiwyd cynlluniau yn ystod y flwyddyn.  Fodd bynnag, dywedant nad yw arweiniad bob amser wedi cael ei rannu na'i ddiweddaru mewn modd amserol, a bod hyn wedi achosi llawer o straen i staff ysgol.

Mae arweinwyr a roddodd gyfarwyddyd i athrawon ar ddechrau'r flwyddyn academaidd gasglu ac adeiladu ar dystiolaeth asesu trwy gydol y flwyddyn yn gweld bod hyn wedi bod yn fuddiol.

Mae bron pob ysgol wedi darparu cyfleoedd i'w hadrannau gyfarfod a safoni gwaith asesu eu disgyblion.  Dywed staff, er bod y prosesau safoni a weithredir gan ysgolion wedi bod yn werthfawr o ran dysgu a datblygiad proffesiynol, eu bod wedi cynyddu baich gwaith athrawon yn sylweddol.

**Cameo – cyfarfodydd safoni ardal Meirionnydd**

Mae ysgolion uwchradd yn ardal Meirionnydd yn fach iawn, ac mae llawer o adrannau pynciau di-graidd yr ysgol yn cynnwys un athro pwnc yn unig.  O'r herwydd, gwnaeth penaethiaid drefniadau i bob un o'r athrawon hyn gyfarfod yn rhithwir i safoni gwaith y disgyblion.  Mae hyn wedi darparu haen ychwanegol o sicrhau ansawdd ar gyfer graddau disgyblion, ac wedi darparu dysgu proffesiynol gwerthfawr ar gyfer athrawon hefyd.

Mae ysgolion yn feirniadol o'r ffaith mai hen bapurau yn bennaf yw'r deunyddiau a ddarperir i ysgolion eu defnyddio at ddibenion asesu, y mae cynlluniau marcio ar gael yn rhwydd ar eu cyfer ar y rhyngrwyd.  Yn aml, mae hyn wedi achosi i

ddisgyblion adolygu'r cynlluniau marcio yn hytrach na gweithio i wella eu medrau a'u gwybodaeth am y pwnc. Mae rhai arweinwyr ysgol yn teimlo bod hyn o fudd i ddisgyblion sy'n dod o deuluoedd cefnogol sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o sut i gael y deunyddiau a'r cynlluniau marcio hyn yn hytrach na'r rhai o gartrefi difreintiedig neu anodd. Dywed llawer o benaethiaid y byddent wedi ffafrio i'r byrddau arholi ddefnyddio deunyddiau arholi 2020 a 2021 gan nad yw'r rhain wedi cael eu rhyddhau i ysgolion, ac nid yw'r cynlluniau marcio wedi eu cyhoeddi chwaith.

Mae uwch arweinwyr yn pryderu am y broses apeliadau a'r baich gwaith posibl sy'n gysylltiedig â hyn. Er enghraifft, bydd ysgol â charfan o 100 o ddisgyblion ym Mlwyddyn 11 yn graddio tua 1000 o gymwysterau ac yn paratoi portffolio tystiolaeth ar gyfer pob un. Hyd yn oed gyda chyfran fach o ddisgyblion yn unig yn apelio yn erbyn eu graddau, bydd y gwaith hwn yn sylweddol i ysgol. Mae ysgolion yn pryderu, o ystyried argaeledd hen bapurau a chynlluniau marcio ar y rhyngrwyd, bod disgyblion yn perfformio'n well yn yr asesiadau na'r disgwyl ac nad yw'r perfformiad hwn yn cyfateb yn gywir i'r radd y maent yn credu y byddai'r disgyblion yn ei chyflawni o dan amgylchiadau arferol. Mae ysgolion yn pryderu y gallai hyn arwain at chwyddiant annormal yng ngraddau dysgwyr oherwydd, mewn achos apêl, byddai'r deunydd asesu yn cefnogi'r radd uwch yn hytrach na'r radd a ddyfarnwyd gan athrawon. Maent yn ofni y gallai proses y Graddau a Bennir gan Ganolfannau eleni arwain at raddau sy'n fwy chwyddedig na'r rhai a welwyd yn 2020.

Mae ychydig o benaethiaid yn feirniadol o ysgolion a chwyddodd raddau disgyblion yn 2020 o dan weithdrefnau Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Dywedant fod camau'r ysgolion hyn wedi arwain at ddiffyg ymddiriedaeth gyffredinol mewn asesiadau athrawon ac at angen am asesiadau helaeth. Dywedant fod cyfle wedi'i golli i symud i ffwrdd oddi wrth ddefnydd helaeth o asesiadau ffurfiol ac arholiadau i bennu gallu a gwybodaeth disgyblion er mwyn dyfarnu cymwysterau.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn pryderu am y trefniadau asesu ar gyfer y flwyddyn nesaf a sut byddant yn cael eu haddasu i wneud iawn am golli'r dysgu a brofwyd gan y disgyblion sydd ym Mlwyddyn 10 a Blwyddyn 12 ar hyn o bryd. Mynegwyd pryder gan leiafrif o arweinwyr am Flwyddyn 12 yn benodol, gan eu bod yn teimlo bod y disgyblion hyn yn debygol o sefyll arholiadau allanol y flwyddyn nesaf, heb wneud hynny erioed o'r blaen.



**Cwricwlwm**

Mae graddau uchel o amrywioldeb o hyd yn y dulliau a ddefnyddiwyd gan arweinwyr i baratoi ar gyfer dychwelyd i'r ysgol yn llawn.  Mewn nifer o ysgolion, mae disgyblion cyfnod allweddol 3 yn parhau i gael eu haddysgu mewn swigod dosbarth mewn un ystafell ddosbarth gyda'r seddau wedi eu trefnu mewn rhesi.  Mae eu cyfle i ddefnyddio cyfleusterau ymarferol yn gyfyngedig, ac mae athrawon yn symud rhwng ystafelloedd dosbarth.  Yn y rhan fwyaf o ysgolion, mae disgyblion cyfnod allweddol 4 a'r chweched dosbarth wedi cael eu rhoi mewn swigod blwyddyn, ac yn symud o gwmpas yr ysgol er mwyn iddynt allu cael mynediad at ystafelloedd dosbarth arbenigol.  Mae ysgolion yn diwygio ac yn diweddaru arweiniad ac asesiadau risg yn rheolaidd er mwyn gallu bwrw ymlaen â phynciau ymarferol yn ddiogel.  Mewn rhai ysgolion, mae arweinwyr wedi penderfynu cynnig cwricwlwm llawn i bawb wedi iddynt ddychwelyd, gyda'r holl bynciau ymarferol ar gael ond gyda chynlluniau wedi'u haddasu.

Mae ysgolion sy'n gweithio mewn partneriaeth yn parhau i ddarparu ystod eang o gyrsiau academaidd a galwedigaethol yn y chweched dosbarth.  Cyn y pandemig, roedd disgyblion yn teithio'n rheolaidd rhwng ysgolion yn ystod y dydd.  Ers y pandemig, cynigiwyd gwersi byw ar-lein i leihau cyswllt i'r eithaf, a lleihau teithio.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi addasu eu trefniadau i gefnogi disgyblion i symud ymlaen o un cyfnod allweddol i un arall.  Er enghraifft, maent wedi cynhyrchu gwybodaeth weledol fel fideos, cyflwyniadau ar-lein a theithiau rhithwir ar gyfer disgyblion sy'n symud o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.  Mae rhai ysgolion yn teimlo mai prin fu'r cyfleoedd i ddisgyblion brofi ystod o ddewisiadau opsiwn cyn iddynt ddewis eu llwybrau terfynol yng nghyfnod allweddol 4.  Mae hyn wedi bod yn arbennig o wir lle mae disgyblion yn gwneud eu dewisiadau ym Mlwyddyn 8, gan mai ychydig iawn o brofiad maent wedi'i gael o addysg 'arferol' ers dechrau'r ysgol uwchradd.  Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi addasu eu harweiniad o amgylch dewisiadau opsiwn yng nghyfnod allweddol 4 ac yn y chweched dosbarth, er enghraifft trwy gyfweliadau a gwasanaethau rhithwir.  Dywed arweinwyr eu bod wedi gweld cynnydd yn nifer y disgyblion Blwyddyn 9 sy'n dewis pynciau ymarferol ar gyfer eu hopsiynau TGAU.  Roedd llawer o ysgolion yn bwriadu cynnal amserlen dros dro yn dilyn hanner tymor y Sulgwyn, ond mae'r ansicrwydd ynghylch pryd y disgwylir i Flwyddyn 11 ac 13 orffen eu hastudiaethau wedi gohirio'r rhain.

Mae nifer o arweinwyr ysgol yn nodi bod yr ysgol wedi cyflogi staff ychwanegol i gyflenwi'r addysgu yng nghyfnod allweddol 3 er mwyn rhyddhau amser i staff / athrawon ddarparu gwersi ychwanegol ar gyfer disgyblion ym Mlwyddyn 11 a'r chweched dosbarth i baratoi ar gyfer Graddau a Bennir gan Ganolfannau.  Er bod y dull hwn yn galluogi ysgolion i ddarparu gwersi rheolaidd, ychwanegol ar gyfer disgyblion, mae llawer ohonynt yn nodi bod gwneud hyn yn peryglu ansawdd y ddarpariaeth a gynigir i ddisgyblion yng nghyfnod allweddol 3.

Mae ysgolion wedi gweld bod angen cynnig ystod bellach o ymyriadau ar gyfer disgyblion sydd angen cymorth ychwanegol.  Mae nifer ohonynt wedi dynodi staff cymorth dysgu ychwanegol i weithio gyda disgyblion unigol neu grwpiau bach o ddisgyblion, yn ogystal â staff ychwanegol i ganolbwyntio'n bennaf ar les disgyblion.  Mae ysgolion wedi cyflwyno neu ymestyn mentrau sydd wedi eu bwriadu i gynorthwyo disgyblion i wella eu medrau llythrennedd.  Mae'r rhain yn cynnwys

rhaglenni targedig, fel arfer yng nghyfnod allweddol 3, i wella medrau gwrando a siarad. Yn ychwanegol, mae ysgolion yn defnyddio rhaglenni darllen sydd wedi eu bwriadu i helpu athrawon i ganfod anawsterau penodol a allai fod gan ddisgyblion.

Yn gyffredinol, mae arweinwyr ysgol yn parhau i fynegi pryderon am y cyfyngiadau ar weithgareddau allgyrsiol a'r profiadau dysgu ehangach cyfyngedig. Mae pob un ohonynt yn nodi bod hyn yn cael effaith niweidiol ar ddatblygiad medrau personol a chymdeithasol disgyblion.

**Cwricwlwm i Gymru**

Mae cynlluniau ar gyfer gweithredu'r Cwricwlwm i Gymru yn parhau i amrywio'n fawr o fewn y sector uwchradd. Yn nhymor yr haf, mae ysgolion yn nodi bod cynlluniau wedi cael eu gohirio gan eu bod wedi bod yn delio â Graddau a Bennir gan Ganolfannau a threfniadau asesu mewnol, ac wedi cael llai o amser i gynllunio'n strategol.

Mae mwyafrif o ysgolion wedi parhau i weithio ymhellach ar eu gweledigaeth ar gyfer y Cwricwlwm i Gymru ac yn gweithredu cynlluniau i gydlynu'r gwaith ar draws yr ysgol. Mae'r ysgolion hyn wedi nodi datblygiadau a ysgogwyd gan y pandemig sy'n ddefnyddiol o ran datblygu cynlluniau'r Cwricwlwm i Gymru, er enghraifft dysgu digidol a gwaith trawsgwricwlaidd. Mae'r cydweithio hwn wedi parhau yn sgil disgyblion yn dychwelyd i'r ysgol .

Mae ychydig o ysgolion wedi mynd ati'n gyflym i ymdrin â meysydd dysgu a dealltwriaeth cyn archwilio o ddifrif eu gweledigaeth ar gyfer eu cwricwlwm ac ansawdd yr addysgu ar lefel ysgol gyfan. Mewn ychydig o ysgolion, mae arweinwyr wedi dewis gohirio paratoadau ar gyfer y cwricwlwm newydd am y tro.

**Dysgu proffesiynol**

Mae bron pob ysgol uwchradd wedi blaenoriaethu amser dysgu proffesiynol i arwain staff trwy'r broses Graddau a Bennir gan Ganolfannau. Yn ogystal â chynnig cymorth gan uwch arweinwyr ac arweinwyr canol o fewn yr ysgol, mae bron pob un o'r athrawon wedi gallu manteisio ar ddeunyddiau dwyieithog a rannwyd gan CBAC, er bod yr hyfforddiant hwn yn llafurus. Mae'r rhan fwyaf o athrawon yn deall disgwyliadau bras y broses, ond yn ei gweld yn feichus i'w chyflawni, ac maent yn awyddus i gynnal eu hasesiadau yn deg a chyfiawn er budd eu disgyblion.

Dros gyfnod, mae ysgolion wedi datblygu 'llyfrgelloedd' cymorth ar gyfer medrau digidol sydd ar gael o hyd i athrawon, ac yn gwbl hygyrch ar-lein. Mae llawer o ysgolion yn ystyried y bydd offer a phlatfformau digidol yn cael eu hymgorffori yng nghynllunio athrawon wrth fynd ymlaen. Maent yn rhagweld y bydd arbenigedd athrawon a ddatblygwyd yn ddiweddar yn parhau i sicrhau profiad cyfoethocach a mwy amrywiol i ddisgyblion. Er enghraifft, byddant yn defnyddio dysgu ar-lein ar gyfer disgyblion ôl-16 sy'n dilyn cyrsiau ar draws gwahanol ddarparwyr, a phan fydd disgyblion yn dysgu y tu allan i oriau ysgol, yn cynnwys gweithgareddau gwaith cartref a sesiynau adolygu.

Mae mwyafrif o ysgolion wedi parhau i gynnig cyfleoedd dysgu proffesiynol sy'n canolbwyntio ar addysgu a pharodrwydd ar gyfer Cwricwlwm i Gymru, er bod y

ffocws ar Raddau a Bennir gan Ganolfannau yn bennaf. O ran blaenoriaethau cenedlaethol eraill, mae llawer o ysgolion wedi cynorthwyo staff i ddyfnhau eu dealltwriaeth o Ddeddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) a'u helpu i ymateb i anghenion newidiol pob disgybl.

Mae'r cynnig dysgu proffesiynol lleol, cenedlaethol a rhyngwladol yn parhau i fod yn eang, yn agored i bawb ac yn hygyrch o ganlyniad i ddileu'r angen i deithio, ac yn aml yn rhad ac am ddim. Gall staff fanteisio'n hyblyg ar ystod ac amrywiaeth eang o gyfleoedd dysgu proffesiynol. Mae'r rhain yn cynnwys cymryd rhan mewn rhwydweithiau lleol a chenedlaethol a darparu cyfle i fynychu gweminarau gan addysgwyr blaenllaw, er enghraifft gan y rhanbarthau a Chyngor y Gweithlu Addysg, a sesiynau dilynol i adroddiadau thematig Estyn. Mae'r consortia rhanbarthol ac awdurdodau lleol wedi parhau i ddarparu cymorth mewn ystod o feysydd. Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi gweld bod y cymorth sydd ar gael yn fuddiol. Mae lleiafrif o ysgolion wedi parhau i gynorthwyo athrawon i ymgymryd ag ymholi proffesiynol.

Mae ysgolion wedi darparu profiadau buddiol ar gyfer athrawon newydd gymhwyso (ANG) ac ar gyfer myfyrwyr addysg gychwynnol i athrawon. Mae arweinwyr yn credu y bydd angen mwy o gymorth ac anogaeth ar gydweithwyr sy'n dechrau eu gyrfa addysgu yn ystod y pandemig o ganlyniad i'r tarfu ar eu cyflwyno i'r proffesiwn.

**Arweinyddiaeth**

Mewn ysgolion uwchradd, mae arweinwyr yn parhau i fod dan bwysau sylweddol. Yn ychwanegol i'r gwaith arferol o ran rhedeg ysgol, rhaid i arweinwyr reoli profion llif unffordd ar gyfer yr holl ddisgyblion, arferion COVID diogel, ac i raddau amrywiol, achosion parhaus o ddisgyblion yn gorfod hunanynysu a'r gweithdrefnau profi, olrhain, diogelu cysylltiedig. Mae rheoli a chymryd cyfrifoldeb am y broses Graddau a Bennir gan Ganolfannau a pharatoi ar gyfer apeliadau wedi cyfrannu baich gwaith a straen ychwanegol sylweddol, ac mae'r rhain wedi effeithio ar arweinwyr ar bob lefel.

Mae'r rhan fwyaf o ysgolion wedi darparu cymorth cynyddol ar gyfer arweinwyr canol trwy hyfforddiant ar gyfer y Graddau a Bennir gan Ganolfannau a rhoi amser ychwanegol iddynt. Fodd bynnag, mae hyfforddiant yn llafurus ac mae unrhyw amser ychwanegol yn golygu nad yw dosbarthiadau eraill yn cael eu haddysgu a rhaid gosod gwaith ar eu cyfer.

Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi parhau i gynnal cyfarfodydd arweinwyr, arweinwyr canol a'r corff llywodraethol. At ei gilydd, mae'r rhain wedi bod yn gyfarfodydd rhithwir ond yn trosglwyddo'n raddol i gyfarfodydd wyneb yn wyneb trwy gadw pellter cymdeithasol. Mae ysgolion wedi gweld bod llawer o fanteision i gynnal cyfarfodydd rhithwir, yn enwedig lle mae'r cyfarfodydd hynny'n cynnwys partneriaid allanol. Er enghraifft, dywed ysgolion fod presenoldeb mewn cyfarfodydd llywodraethwyr wedi bod yn well ar blatfformau digidol. Yn ychwanegol, mae ysgolion wedi gweld ei bod yn haws cydweithio ag ysgolion eraill, a dysgu oddi wrthynt, gan eu bod wedi gallu cyfarfod yn rhithwir i rannu syniadau. Mae platfformau digidol yn galluogi ysgolion i ymgysylltu y tu hwnt i ffiniau rhanbarthol a daearyddol a chyfarfod yn amlach.

Un o nodweddion nodedig yr ymagwedd at arweinyddiaeth yn sgil y pandemig yw ffocws cynyddol ar fyfyrio a hunanwerthuso arferion. Dywed arweinwyr fod y pandemig wedi eu gorfodi i feddwl yn wahanol am bopeth a wnânt, cwestiynu ffyrdd hirsefydledig o weithio a gweithredu'n gyflym i newid pethau. Er gwaethaf heriau sylweddol y pandemig, mae llawer o arweinwyr yn dangos agwedd gadarnhaol at symud ymlaen ac yn gweld manteision rhai o'r newidiadau sydd wedi cael eu gorfodi arnynt.

Yn gyffredinol, mae ysgolion wedi cynyddu'r cyfleoedd i ystod o randdeiliaid rannu eu barn am waith ysgol trwy arolygon, polau a grwpiau ffocws. At ei gilydd, mae ysgolion wedi gweithredu'n gyflymach nag y byddent fel arfer er mwyn gwneud newidiadau yn sgil adborth gan ddisgyblion, rhieni a staff yn benodol.

Mae amrywioldeb yn parhau yng ngraddau ac ansawdd gwerthuso addysgu a dysgu. Mae hwn wedi bod yn faes gwaith hynod heriol i ysgolion o dan COVID-19. Mae llawer o arweinwyr wedi arsylwi gwersi ar-lein ac yn dychwelyd yn gynyddol at arsylwadau gwersi wyneb yn wyneb. Fodd bynnag, nid ydynt wedi gallu gwerthuso effaith y gwersi yn llawn trwy ryngweithio â disgyblion ac edrych ar eu gwaith fel y byddent yn arfer ei wneud. Mewn enghreifftiau eraill, bu gwerthuso cyfyngedig o addysgu a dysgu. Yn ychwanegol, mae athrawon wedi ei chael yn anodd asesu cynnydd disgyblion yn gywir pan oeddent yn dysgu o gartref gan nad oeddent yn gallu dweud faint o gymorth oedd wedi cael ei roi i ddisgyblion neu i ba raddau yr oeddent wedi defnyddio'r rhyngrwyd, ac nid oedd rhai disgyblion yn ymgysylltu o gwbl. Mae hyn wedi golygu nad yw ysgolion wedi cael data asesu cywir ar gyfer pob disgybl.

Mae symud i blatfformau digidol wedi golygu bod ystod eang iawn o gyfleoedd dysgu proffesiynol bellach ar gael i ysgolion. Yn gyffredinol, mae'r ddarpariaeth dysgu proffesiynol bron ym mhob ysgol yn fwy helaeth. Fodd bynnag, mae llai o gysondeb o lawer o ran gwerthuso effaith a phriodoldeb darpariaeth dysgu proffesiynol. Mewn rhai achosion, mae'n ymddangos bod diffyg cynllunio a chyfeiriad strategol y tu ôl i'r rhaglen dysgu proffesiynol.

Mae'r rhan fwyaf o arweinwyr ysgol yn teimlo bod eu hysgolion wedi symud ymlaen mewn rhai ffyrdd, ac yn ôl mewn ffyrdd eraill. Er enghraifft, mae bron pob arweinydd ysgol yn teimlo bod eu hysgolion wedi gwneud cynnydd cadarnhaol sylweddol o ran medrau digidol disgyblion a staff a seilwaith digidol eu hysgolion. Ar y llaw arall, mae llawer o arweinwyr yn pryderu bod ffyrdd gwerthfawr o weithio yr oeddent wedi gweithio'n galed i'w sefydlu a'u hymgorffori, fel ymagweddau ysgol gyfan at lythrennedd a rhifedd neu gynlluniau darllen, wedi cael eu gwanhau yn ystod y pandemig, a bydd yn cymryd amser hir i'w hailsefydlu.

### Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg

At ei gilydd, mae ysgolion yn croesawu'r ffaith y bydd Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg yn berthnasol i Flynyddoedd 7 a 10 yn unig o fis Medi, ond yn pryderu am y cymhlethdod a'r baich gwaith fydd yn gysylltiedig â chynnal dwy system ar yr un pryd. Yn gyffredinol, ac er gwaethaf heriau'r pandemig, mae ysgolion wedi parhau i baratoi ar gyfer gweithredu'r Ddeddf, er bod cynlluniau mewn cyfnodau datblygu amrywiol. Mewn llawer o achosion, mae ysgolion wedi gweithio gyda'u hysgolion cynradd partner i gynllunio ar gyfer y gweithredu, a

darparu dysgu proffesiynol, ac mae rhai clystyrau o ysgolion yn rhannu Cydlynydd ADY. Mae ysgolion yn gwerthfawrogi'r gefnogaeth a gynigir gan awdurdodau lleol, er eu bod yn pryderu y bydd llai o gefnogaeth ar gael wrth i secondiadau ADY i gefnogi gweithredu'r Ddeddf ddod i ben.

**Cyllid y grant recriwtio, adfer a chodi safonau a chyllid grantiau eraill**

Mae arweinwyr yn gwerthfawrogi'r cyllid grant a roddwyd i ysgolion. Maent wedi defnyddio'r cyllid hwn i dalu am staff addysgu a staff cymorth ychwanegol a thalu cost addasiadau y bu'n rhaid iddynt eu gwneud, fel glanhau cynyddol. Fodd bynnag, mae llawer o'r cyllid hwn wedi ei gyfyngu gan amser, ac felly mae'n anodd i arweinwyr wneud unrhyw newidiadau neu benodiadau cynaliadwy. Yn ychwanegol, mae gwahanol amodau ynghlwm wrth bob grant, a gwahanol ddisgwyliadau o ran y gweithgarwch dilynol. Mewn llawer o achosion, mae cyllid grant wedi cyrraedd yn hwyr iawn yn y flwyddyn ariannol, sydd wedi ei gwneud yn heriol gwario'r arian cyn dechrau'r flwyddyn ariannol nesaf. Hefyd, mae wedi bod yn heriol recriwtio staff ar fyr rybudd, yn enwedig yn y sector cyfrwng Cymraeg, ac mewn ardaloedd daearyddol penodol.



## Trefniadau a newidiadau gweithredol i'r diwrnod ysgol

Mae llawer o ysgolion wedi cadw strwythur eu hamserlen arferol. Mae ychydig o ysgolion wedi cynyddu hyd gwersi i leihau symudiadau i'r eithaf o gwmpas yr ysgol. Mae llawer o ysgolion wedi parhau ag amseroedd egwyl ac amseroedd cinio rhanedig, sy'n golygu yn gyffredinol bod staff a disgyblion yn cael amseroedd egwyl a chinio byrrach. Er bod manteision i hyn o ran ciwio a gorgrynhoi, caiff effaith negyddol ar glybiau amser cinio a'r amser sydd ar gael i staff a disgyblion ryngweithio yn gymdeithasol. Mae ychydig o ysgolion wedi parhau â diwrnod byrrach ac egwylion cyfyngedig ar gyfer disgyblion a staff, gyda rhai ohonynt yn gorffen y diwrnod ysgol cyn 2.00 p.m.

**Amgylchedd diogel**

Mae ysgolion yn parhau i wneud eu gorau i ddarparu amgylchedd diogel ar gyfer staff a disgyblion.  Dywedant fod arferion hylendid yn cael eu deall a'u rhoi ar waith yn dda.  Yn ychwanegol, mae rhwng 35% a 90% o ddisgyblion mewn ysgolion unigol yn cael profion llif unffordd.

**Symud o gwmpas yr ysgol**

Mae'r trefniadau mewn nifer gynyddol o ysgolion yn dechrau canolbwyntio ar alluogi disgyblion i symud o gwmpas yr ysgol, gyda staff yn aros yn eu hystafelloedd arbenigol eu hunain.  Dywed ysgolion fod hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les disgyblion a staff.  Maent yn nodi bod hyn wedi bod yn bosibl o ganlyniad i'r ffaith fod arferion fel systemau unffordd a mynedfeydd dynodedig yn cael eu deall a'u gweithredu'n dda gan ddisgyblion.

**Effaith newidiadau gweithredol ar ddisgyblion difreintiedig**

Mae rhai ysgolion wedi nodi pryderon am effaith newidiadau gweithredol ar ddisgyblion difreintiedig.  Er enghraifft, mewn rhai ysgolion, mae diffyg gofod y tu mewn i ddisgyblion fwyta eu cinio.  O ganlyniad, nid yw disgyblion yn cael cyfle i fwyta'n gymdeithasol o gwmpas bwrdd.  Mae ysgolion yn pryderu mai amser cinio yn yr ysgol yw'r unig gyfle a gaiff rhai disgyblion i brofi hyn.

## Cynlluniau yn sgil COVID a fydd yn cael eu cadw

**Yn ystod tymor yr haf, mae llawer o ysgolion wedi dechrau gwerthuso'r addasiadau a wnaed yn ystod y cyfnod clo cyntaf a'r ail gyfnod clo, ac yn nodi eu 'Cynlluniau yn sgil COVID a fydd yn cael eu cadw'.**

### Cludiant

Mae systemau rheoli traffig a chofrestrau ar fysiau wedi gweithio'n dda i leihau'r angen i fysiau llawn ynysu pan fydd achos positif.  Yn ychwanegol, mae rhai ysgolion yn ystyried cadw'r trefniadau hyn yn y dyfodol o ganlyniad i'w heffaith gadarnhaol ar ymddygiad.



### Cyfathrebu â rhieni a nosweithiau rhieni ar-lein

Un ‘cynllun yn sgil COVID a fydd yn cael ei gadw’ i rai ysgolion yw’r ymagwedd hybrid at nosweithiau rhieni. Dywed ysgolion eu bod wedi gallu ymgysylltu â chynulleidfa ehangach trwy gynnal rhai rhannau o gyfarfodydd rhieni yn rhithwir, ac ar adegau o’r dydd sy’n galluogi nifer fwy o rieni i gymryd rhan.  Mae hyn, ynghyd â chyfathrebu digidol â rhieni, yn rhywbeth maent yn bwriadu parhau ag ef yn y dyfodol.

### Clychau ysgol

Mae rhai ysgolion, fel Ysgol John Frost, wedi cael gwared ar y clychau yn ystod y diwrnod ysgol.  Wedi i’r wers orffen, mae staff yn barnu’r adeg orau i ryddhau eu dosbarth i’r coridorau.  Mae hyn wedi galluogi disgyblion i ddilyn canllawiau cadw pellter cymdeithasol mewn coridorau sy’n llai gorlawn.  Hefyd, mae’r ysgol yn nodi’r awyrgylch tawelach sydd wedi deillio o’r dull hwn.  Maent yn bwriadu parhau â hyn yn y dyfodol..








**Defnydd cynyddol o arolygon**

Mae llawer o ysgolion wedi cynyddu eu defnydd o arolygon ar-lein ar gyfer rhieni, disgyblion a staff. Yn ystod y pandemig, maent wedi defnyddio'r arolygon hyn i gael barn rhanddeiliaid ar ystod eang o destunau, ac yn bwriadu parhau â'r dull hwn yn y dyfodol. Mae ysgolion wedi gweld bod cyfraddau ymateb i arolygon wedi bod yn well nag yn y gorffennol a'u bod yn cynnig ffordd gyflym ac effeithlon o gael barn rhanddeiliaid.



## Atodiad: Nifer y galwadau/ymweliadau ymgysylltu yn ystod y flwyddyn academaidd 2020-2021

| Consortiwm | Awdurdod lleol | Ysgolion |
|---|---|---|
| CCD | Pen-y-bont ar Ogwr | 9 |
| | Bro Morgannwg | 7 |
| | Rhondda Cynon Taf | 13 |
| | Merthyr Tudful | 4 |
| | Caerdydd | 18 |
| | Cyfanswm CCD | 51 |
| GCA | Caerffili | 11 |
| | Blaenau Gwent | 2 |
| | Torfaen | 6 |
| | Sir Fynwy | 4 |
| | Casnewydd | 7 |
| | Cyfanswm GCA | 30 |
| ERW | Powys | 10 |
| | Ceredigion | 5 |
| | Sir Benfro | 5 |
| | Sir Gaerfyrddin | 13 |
| | Abertawe | 14 |
| | Cyfanswm ERW | 47 |
| GwE | Ynys Môn | 5 |
| | Gwynedd | 14 |
| | Conwy | 8 |
| | Sir Ddinbych | 6 |
| | Sir y Fflint | 12 |
| | Wrecsam | 7 |
| | Cyfanswm GwE | 52 |
| | Castell-nedd Port Talbot | 5 |
| **Yr holl ddarparwyr uwchradd** | | 185 |
| | | |
| **Meincnod prydau ysgol am ddim (PYDd am 3 blynedd, 2018-2020)** | | |
| Hyd at, ac yn cynnwys 10% | | 41 |
| Dros 10% a hyd at, ac yn cynnwys 15% | | 54 |
| Dros 15% a hyd at, ac yn cynnwys 20% | | 34 |
| Dros 20% a hyd at, ac yn cynnwys 30% | | 44 |
| Dros 30% | | 12 |
| Gwybodaeth ddim ar gael | | 0 |
| Cyfanswm | | 185 |